

# Bwletin Cysylltiadau Conwy

*Gwella RSPB Conwy ar gyfer Pobl a Natur*

Awst 2012

## Croeso i Bwletin cyntaf Cysylltiadau Conwy!

Rydym ni wedi cynhyrfu'n fawr yma yng Nghonwy! Cawson y golau gwyrdd i yrru ‘mlaen gyda chynlluniau sydd wedi bod yn ddim ond breuddwyd i’r ymwelwyr, y staff a'r gwirfoddolwyr ers blynyddoedd! Mae project Cymunedau a Natur yn cefnogi RSPB drwy roi £179,000 tuag at raglen o waith a elwir yn Cysylltiadau Conwy. Mae Ystad y Goron wedi gaddo £55,000 i adeiladu arsyllfa newydd a fe gasglodd gwirfoddolwyr Grŵp Cefnogi RSPB Conwy, swm anhygoel o £30,000 ar gyfer y gronfa arian cyfatebol mewn llai na dwy flynedd. Dengys hyn gefnogaeth enfawr ar gyfer yr hyn rydym yn ei gynnig a diolch yn fawr iddyn nhw.

Dros y 18 mis nesaf, bydd RSPB Conwy yn cael ei drawsnewid - gyda gwedd newydd ffresh ac andoddau newydd, cyffrous...oll er mwyn gweithio'n ffordd tuag at wella cysylltiad pobl â bywyd gwyllt.

Bydd y Bwletin cyson yma’n rhoi gwybodaeth gyfredol ichi am y datblygiadau. Hoffem ni'n fawr ichi fod yn rhan o'r daith gyffrous hon. Mae am fod yn daith gwerthchweil!







Mae Cysylltiadau Conwy yn fenter a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Llywodraeth Cymru, ac mae’n rhan o brosiect strategol Cymunedau a Natur Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Hoffai RSPB Cymru ddiolch i'r rheini sydd wedi cyfrannu tuag at gefnogi gwarchodfa natur ac adnoddau ymwelwyr RSPB Conwy, gan gynnwys Ystad y Goron, Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth Cemlyn Jones, Cyngor Tref Conwy a Grŵp Cefnogi RSPB Conwy. Mae RSPB Cymru yn parhau i gasglu arian tuag at gronfa Cysylltiadau Conwy. Os hoffech chi gymryd rhan i gasglu arian, gwirfoddoli gyda RSPB, neu fod ynghlwm â'r project mewn unrhyw ffordd, cysylltwch gyda ni: conwy@rspb.org.uk

Cymunedau a Natur
Communities and Nature

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

# "Ond pam newid? Mae'n wych fel ag y mae!"

Dewch inni weld os y gallwn ni eich plesio gyda'n cylluniau gwych...

**Gwella'n olion carbon gyda solar thermal**
**Cwblhau: Hydref/Tachwedd 2012**

Gosod paneli solar yn y siop goffi yw cam cyntaf y project. Cynhesu dwr yw ein defnydd mwyaf o drydan. Bydd solar thermal ar gyfer y siop goffi yn gymorth mawr i leihau nwyon tai gwydr sy'n cael ei ollwng drwy'r trydan a ddefnyddir. Byddwn hefyd yn arbed arian ar filiau a all gael ei ddefnyddio ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt. Bydd y siop goffi ar gau ar ddechrau mis Hydref am rai diwrnodau i osod y paneli. Mi rown wybod ichi mwy am hyn.

**Gwella'r maes parcio**
**Cwblhau: Tachwedd 2012**

Yn fuan, mi fydd gennym faes parcio newydd sbon! Mae'n cael ei ail-ddylunio, arwyneb newydd, bydd mynediad lletach, mwy o lefydd parcio ar gyfer bathodynnau glas a llwybr cerdded diogel fel na fydd rhaid camu o ffordd y traffig a'r tyllau! Bydd y warchodfa yn cau am ychydig ddyddiau. Eto, rhown wybod ichi pa bryd o flaen llaw, mor fuan ag y medrwn.

**Arsyllfa Natur y Jiwbilî**
**Cwblhau: Tachwedd 2012**

Bydd yr adeilad arbennig yma yn cael ei adeiladu gyda bwndeli gwellt. Bydd yn cynnig gofod o dan do anhygoel, wedi'i adeiladu o fewn pentwr tir gyda'r lagŵn yn agor allan o'i flaen. Cynnigia le gwych ar gyfer gwylio bywyd gwyllt ac i gynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

**Beth arall y gwlewch chi?**
**Cwblhau: Gwanwyn 2013**

Bydd mwy o ddehongliadau yn y cuddfannau yn enwedig yng nghuddfan Tal-y-fan, pwynt golygfa yn edrych dros y lagwn a gosodiad cerflun anhygoel. Fedrwn ni ddim aros i weld rhain i gyd!

**Y Maes**
**Cwblhau: Gwanwyn 2013 / Agoriad: 2014**

**Y Maes** yw canolbwynt y project. Wedi'i leoli rhwng Canolfan Ymwelwyr a'r Siop Goffi, bydd y tamaid tir yn cael ei drawsnewid mewn i bleser synhwyraidd i bawb ei fwynhau. Bydd bryncyn-nau a thwmpathau yn darparu golygfeydd o'r holl warchodfa a Dyffryn Conwy. Cynhwysa ofod digwyddiadau, drysfa llawr mosaic, safle picnic a gofod chwarae naturiol.



*Uchod: Llun o'r siop goffi ac Arsyllfa Natur y Jiwbilî (artist Alan Gray) sydd wedi'i ddewis fel project RSPB Cymru i nodi Jiwbili Deimwnt y Frenhines.*

*Arhoswch gyda ni drwy gydol y cyfnod adeiladu...*

Ebostiwch ni: **conwy@rspb.org.uk**

Ffoniwch ni: **01492 584091**

Dewch i'n gweld! **LL31 9XZ**

Rydym ni ar Facebook

Hoffwch ni ar Twitter

**www.rspb.org.uk/conwy**